OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 376

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

## RHAN 3

Darpariaethau sy'n Gymwys i Gynhyrchion yn Gyffredinol

### Cynhyrchion sy'n cynnwys sylweddau anawdurdodedig a gweddillion gormodol

**23.**—(1) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "terfyn gweddillion uchaf" ("*maximum residue limit*") yw terfyn gweddillion uchaf a restrir yn Atodiad I neu Atodiad III i Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2377/90 (sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid)(**1**);

(b) mae i "sylwedd anawdurdodedig" yr ystyr sydd i "*unauthorised substance or product*" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC (ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a diddymu Cyfarwyddebau 85/358/EEC a 86/469/EEC a Phenderfyniadau 89/187/EEC a 91/664/EEC)(**2**); ac

(c) ystyr "sefydliad tarddiad mewn trydedd wlad" ("*establishment of origin in a third country*") yw'r sefydliad tarddiad yn y drydedd wlad y mae'r llwyth yn tarddu ohoni, fel a nodir ym mlwch 10 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gwiriad milfeddygol ar lwyth o sefydliad tarddiad penodol mewn trydedd wlad yn datgelu bod sylwedd anawdurdodedig yn bresennol, neu'n datgelu yr aethpwyd dros y terfyn gweddillion uchaf, ond nad oes unrhyw fesurau Cymunedol wedi'u mabwysiadu eto mewn ymateb i hyn.

(3) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2), mae paragraffau (4), (5), (6) a (7) yn gymwys i'r rhai o blith y deg llwyth nesaf y deuir â hwy i'r Deyrnas Unedig o'r sefydliad hwnnw ac y deuir â hwy i Gymru.

(4) Rhaid i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin lle y deuir ag unrhyw lwyth o'r fath i mewn, ei gymryd dan ei ofal, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth, ac edrych i weld a oes sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion yn y llwyth drwy gymryd sampl gynrychioliadol o'r cynhyrchion sy'n ffurfio'r llwyth hwnnw a'i dadansoddi.

(5) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan baragraff (4), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth roi yng ngofal y milfeddyg swyddogol flaendal neu warant sy'n ddigonol i sicrhau bod yr holl ffioedd sy'n daladwy yn unol â Rhan 9 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth, gan gynnwys cymryd samplau, ac am unrhyw brawf neu ddadansoddiad labordy a wnaed ar unrhyw sampl a gymerwyd, yn cael eu talu.

(**1**) OJ Rhif L224, 18.8.90, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1451/2006 (OJ Rhif L271, 30.9.2006, t.37).

(**2**) OJ Rhif L125, 23.5.96, t. 10, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor (gweler Corigendwm OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

(6) Os bydd unrhyw wiriad milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth yn datgelu bod sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion yn bresennol neu'n datgelu yr aethpwyd dros ben y terfyn gweddillion uchaf, rhaid i'r milfeddyg swyddogol —

(a) anfon ymlaen y llwyth, neu unrhyw ran ohono y mae'r milfeddyg swyddogol yn credu bod presenoldeb sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion neu weddillion gormodol yn effeithio arni, ynghyd â'r dogfennau gofynnol, i'r drydedd wlad y mae'n tarddu ohoni; a

(b) arnodi'r dogfennau gofynnol sy'n ymwneud â'r llwyth, gan roi awgrym clir arnynt o'r rhesymau dros ei anfon ymlaen.

(7) Rhaid i gostau anfon y llwyth neu'r rhanlwyth ymlaen i'r drydedd wlad y mae'n tarddu ohoni a'i gludo yno gael eu talu gan yr anfonydd y mae ei enw yn ymddangos ar yr hysbysiad o gyflwyno'r llwyth a hwnnw'n hysbysiad a roddwyd yn unol â rheoliad 17.